

Creu 'buzz' yn Ysgol Neyland

Yn gynharach eleni, dewiswyd Ysgol Gymunedol Neyland gan Cadwch Cymru'n Daclus fel un o bum safle arddangos Buzz Naturiol. Caiff y gwaith ei ariannu gan Gronfa Natur Llywodraeth Cymru, a'i nod yw gwella tir yr ysgol er lles pryfed peillio.

Bu Cadwch Gymru'n Daclus a Man Gwyrdd Cymru yn gweithio gyda phwyllgor eco'r ysgol i droi nifer o ardaloedd glaswelltog yn welyau blodau gwyllt ac i blannu amrywiaeth o blanhigion lluosflwydd a choed ffrwythau. Dysgodd y pwyllgor eco am bwysigrwydd pryfed peillio a gwneud gwaith ymarferol tra'r oedd gweddill yr ysgol yn cael gwybod am y datblygiadau yn y gwasanaethau boreol.



Ardal y Blodau Gwyllt

Mae tua 450m² o lawnt a oedd yn arfer cael ei dorri bob pythefnos wedi newid o fod yn lle gwyrdd digymeriad i fod yn fôr o liw. "Rydym yn falch iawn o dir ein hysgol nawr," meddai Annabel (5 oed). Dywedodd Zak (6½) "Roedd yn arfer bod yn ddiflas, yn fwdlyd ac yn wlyb ac mae'r blodau wedi gwneud gwahaniaeth enfawr."

Hefyd, mae'r disgyblion yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio. Dywedodd Nia (10 oed), un o aelodau'r pwyllgor eco: "Er eu bod yn fach, mae gwenyn yn hanfodol. Rydym yn dibynnu arnyn nhw a phryfed eraill i beillio'r rhan fwyaf o'n llysiau a'n ffrwythau ond mae

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP



PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyfrl 12 Rhifyn 3
Hydref/Gaef 2015

Yn y rhifyn hwn

Creu 'buzz' yn Ysgol
Neyland

Tudalennau 1-2

Diwrnodau Cofnodi
Canolfan Wybodaeth
Bioamrywiaeth Gorllewin
Cymru yn Sir Benfro 2015

Tudalennau 2-3

Pwyth mewn Pryd

Tudalennau 3-4

Integreiddio Cyfoeth
Naturiol a Chymdeithasol

Tudalennau 4-5

Bechgyn y Briodas yn
Clirio Jac y Neidiwr ym
Mhorthgain

Tudalen 5

Digwyddiadau

Tudalennau 6-7

Manylion Cysylltu

Tudalen 8



gwenyn dan fygythiad, a hebddynt mae'r bywyd rydym ni'n ei fwyta dan fygythiad hefyd."

Dywedodd Natalie Moir, cyd-gysylltydd eco ysgol gymunedol Neyland "Yn weledol, mae yna effaith wirioneddol ar dir yr ysgol ac o amgylch. Mae gwenyn wedi creu cwch naturiol. Mae wedi dod â'r pwyllgor eco at ei gilydd i wneud penderfyniadau gyda'i gilydd, ac fel cynrychiolwyr dosbarthiadau mae'r holl blant wedi cael cymryd rhan. Mae hyn wedi rhoi teimlad cadarnhaol, a nawr rydym wedi dechrau creu cysylltiadau â phrosiectau gwyddoniaeth."

Daeth yr Aelod o'r Cynulliad, Simon Thomas i'r lansiad, a dywedodd fod prosiectau fel hyn yn helpu disgyblion i gael 'gwerth gwirioneddol o addysg' drwy ddefnyddio sgiliau fel cyfri a mesur mewn cyd-destun newydd. Dywedodd y byddai newidiadau i'r cwricwlwm yn parhau i roi fwy o ryddid ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, a defnyddio gwybodaeth mewn ffordd hwyllog.

Defnyddiwyd rhan o'r cyllid i brynu offer a chyfarpar ynghyd â digon o hadau blodau gwyllt i alluogi'r ysgol i blannu eto yn y blynnyddoedd i ddod. "Bydden ni'n bendant yn gwneud hyn eto. Roedden ni wrth ein boddau," meddai Zac.

Mari Williams
Cadwch
Cymru'n Daclus



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Diwrnodau Cofnodi Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn Sir Benfro 2015

Bob blwyddyn, mae Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn trefnu nifer o Ddiwrnodau Cofnodi Biolegol ledled gorllewin Cymru; eleni daethom i ddau safle yn Sir Benfro. Fymryn yn wahanol i 'Bioblitz', bwriad y diwrnodau yw cael caniatâd i ymweld fel grŵp bychan â thir preifat, ffermydd yn aml, a gwneud arolwg. Dyma gyfle i bobl fynd i rannau o'r Sir na fyddent yn gallu mynd iddynt fel arfer

Cycyllog Bach.
Llun Rob Shaw.



a chyfle i weld rhai o ganlyniadau gwych y rheolaeth tir ar ffermydd yn yr ardal. Maent hefyd yn gyfle i dirfeddianwyr gael gwybodaeth fanwl gan arbenigwyr am y rhywogaethau ar eu tir.

Usnea articulata.
Llun Rob Shaw.



Eleni, drwy garedigrwydd Sarah Beynon ac Andrew Holcroft, aethom i Dr Beynon's Bug Farm ger Tyddewi, sydd mewn lle unigryw rhwng tir comin Dowrog a Waun Vachelich, a fferm gyfagos i SoDdGA Waun Cleddau ger Mynyddoedd y Preseli drwy ganiatâd caredig Val ac Eddie Kirby. Roedd y ddau safle'n rhoi cyfle inni weld rhai o



rywogaethau prin y sir, fel Carwy Droellennog (*Carum verticillatum*), Cycyllog Bach (*Scutellaria minor*) a Chrafanc-y-frân Dridarn (*Ranunculus tripartitus*), yn ogystal â llu o blanhigion eraill, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, cennau, adar a mwy. Fel arfer, mae dros 200 o wahanol rywogaethau i'w gweld mewn diwrnod.

Mae ein diwrnodau cofnodi wedi cael llawer o gefnogaeth dros y blynyddoedd gan griw ymroddgar o arbenigwyr lleol, ac maent yn gyfle da i bobl gwrdd yn anffurfiol yn ogystal â chrynhoi gwybodaeth am natur ac adnabod rhywogaethau er mwyn cofnodi'r nifer fwyaf bosibl o rywogaethau ar safle.

Rydym wastad yn chwilio am bobl sydd â diddordeb mewn dod. Mae nifer o grwpiau tacsonomi yn cael eu tangynrychioli yn y gwaith cofnodi yn Sir Benfro, megis Pryfed Cop, Cennau a Boldroediaid, ac rydym wastad eisiau clywed gan bobl sy'n ymddiddori mewn grwpiau sydd wedi eu tangofnodi. Does dim rhaid bod yn arbenigwr i ddod, ond mae diddordeb mewn adnabod rhywogaethau yn hanfodol, a gall y cyfle i ddysgu yn y maes gyda chymorth cofnodwyr arbenigol fod yn fuddiol iawn i ddatblygu sgiliau adnabod.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod i un o'n Diwrnodau Cofnodi yn 2016, neu os ydych yn dirfeddiannwr sydd am inni ddod i'ch tir, cysylltwch â'r Ganolfan drwy Robert@westwalesbiodiversity.org.uk 01994 241468.

Robert Shaw

Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth
Gorllewin Cymru



WEST WALES
BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH
GORLLEWIN CYMRU

Pwyth mewn Pryd

Mae prosiect newydd 15 mis i ymdrin â rhywogaethau estron ymosodol yng Nghwm Gwaun wedi cychwyn.

Mae'r prosiect *Pwyth mewn Pryd* yn targedu clymog Japan (*Fallopia japonica*), Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*) a Rhododendron (*Rhododendron ponticum*) – sef o flaenoriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn Sir Benfro.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy, sy'n cael ei gweinyddu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n talu am y prosiect.



Un ffos ar y tro: y gwirfoddolwr Rhodri Kemp yn darganfod clwstwr o Jac y Neidiwr

Drwy wneud arolwg a mapio'r tair rhywogaeth cafwyd darlun o'u presenoldeb yng Nghwm Gwaun ac o fewn dalgylchoedd unigol



Wardeiniaid Gwirfoddol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn tynnu Jac y Neidiwr

Mae'r arolwg wedi elwa'n fawr ar wirfoddolwyr ymroddgar ac ar wybodaeth a chyfeirnodau grid gan aelodau'r cyhoedd.



Mae gwirfoddolwyr hefyd yn helpu i'w rheoli. Mae criwiau o wirfoddolwyr wedi bod yn tynnu'r Jac y Neidiwr o'r gwraidd cyn i'r codau hadau aeddfedu, ac maent wedi clirio llystyfiant wrth ymyl y Jac y Neidiwr er mwyn gallu eu cyrraedd i'w chwistrellu. Cymerwyd camau biddiogelwch er mwyn sicrhau nad yw darnau o'r planhigyn yn cael eu trosglwyddo'n anfwriadol oddi ar y safle.

Cysylltwch â Matt Tebbutt, cydlynnydd prosiect *Pwyth mewn Pryd* i gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, i ddweud os ydych wedi gweld y tair rhywogaeth yn nalgylch Cwm Gwaun, neu i ddysgu mwy am gyfleoedd i wirfoddoli. Gellir anfon e-bost at Matt yn: matthewt@pembrokeshirecoast.org.uk neu ei ffonio ar 07866 771164.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Integreiddio Cyfoeth Naturiol a Chymdeithasol

Yr haf hwn daeth prosiect chwe mis i ben i feithrin gwytnwch ecolegol drwy waith ehangu a chysylltu ecolegol ar Benrhyn Castellmartin - gan ddwyn ynghyd gymunedau, rheolwyr tir, diwydiant a'r sector cyhoeddus i feithrin gwytnwch yn yr amgylchedd a'r economi lleol. Ariannwyd y gwaith gan 'Gronfa Natur' Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o annog prosiectau partneriaeth tirweddol arloesol.

Roedd y prosiect yn cyfuno'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Penfro 21G (CIC), Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro, ynghyd â thirfeddianwyr preifat a busnesau lleol i fynd i'r afael â bygythiadau i safleoedd gwerthfawr o



Benrhyn Castellmartin
Llun: Sid Howells

ran cadwraeth (megis Llynnoedd Bosherton a Chors Castellmartin), cynyddu gwytnwch ecosystemau tirweddol, a meithrin gallu yn lleol ar gyfer gwaith cymunedol a gwirfoddol.

Roedd y gwaith ymarferol yn cynnwys darparu seilwaith i'w gwneud yn haws i reoli tir yn gynaliadwy; creu cynefinoedd er lles pryfed peillio; gweithio gyda ffermwyr lleol i ganfod ffyrdd o weithio er lles amaethyddiaeth a byd natur; a hyfforddiant ar gadwraeth a rheoli cefn gwlad ar gyfer gwirfoddolwyr lleol. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys astudiaethau theoretig i fapio cyfleoedd cadwraeth ac ymchwilio i bosibilrwydd prosiect adfer llyn.


Daeth y prosiect i ben gyda digwyddiad i rannu gwybodaeth yng Nghanolfan Stagbwl ym mis Mehefin pryd y gwahoddwyd amrywiaeth o randdeiliaid i gyfrannu syniadau am y camau nesaf. Hoffai



Cors Castellmartin
Llun: Paul Culyer



Mapio Cysylltedd Ecollegol yn Ardal y Prosiect



partneriaid y prosiect adeiladu ar lwyddiannau'r prosiect i gael rhagor o fanteision i'r amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas yn yr ardal yn y blynyddoedd i ddod.

Ant Rogers

Partneriaeth Bioamrywiaeth
Sir Benfro



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



**PARTNERIAETH
BIOAMRWYIAETH
SIR BENFRO**

Bechgyn y Briodas yn Clirio Jac y Neidiwr ym Mhorthgain

Efallai wir nad yw gwaith cadwraeth yn weithgaredd traddodiadol ar gyfer penwythnos 'stag' ond dyna'n union y penderfynodd un criw o ffrindiau ei wneud pan ddaethant i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Cyfarfu'r criw o ugain o ddynion yng Nghlwb Mynydda Prifysgol Caerdydd pan oeddent yn fyfyrwyr, a buont yn helpu Ian Meopham, Parcmon gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol, i gael gwared ar blanhigyn Jac y Neidiwr (*Himalayan Balsam*) a oedd wedi llenwi hen bwl melin ger pentref Porthgain.

Dywedodd David Webb, un o'r gweision priodas: "Rydw i'n gwybod bod partion stag wedi cael enw drwg am fynd i ddinasoedd mawr ac achosi llanast a pheidio â gwneud

unrhyw ddaioni, felly roedden ni eisiau gwneud rhywbeth ar gyfer y gymuned."

Roedd y grŵp, a gwblhaodd y gwaith da gan wisgo siwtiau a barfau doniol, yn ymweld â'r ardal i fwynhau'r cyfleoedd i wneud arforgampau a chaiacio ar yr arfordir, ond fe wnaethon nhw neilltuo amser yn ystod eu penwythnos i helpu i gael gwared ar y rhywogaethau ymledol o ardal fawr o dir ger y pentref glan môr.

Gall *Jac y neidiwr* dyfu'n uwch na thaldra pobl, gan ledaenu'n gyflym. Mae'n mygu llystyfiant brodorol arall wrth ymledu, yn enwedig ar lannau afonydd a thir diffaith, ond gall hefyd ymledu mewn gerddi. Ychwanegodd y Parcmon Ian Meopham: "Roedd yn wych cael cymorth grŵp mor fawr o wirfoddolwyr brwdfrydig gan ei bod yn bwysig tynnu'r planhigyn ymledol iawn hwn cyn iddo hadu.

"Dyma'r drydedd flwyddyn i ni geisio cael gwared ar Jac y neidiwr yma ym Mhorthgain, ond mae'n broses raddol. Rydw i'n obeithiol y gallwn ni glirio'r dalgylch cyfan eleni.



**Ian Meopham, Parcmon gydag Awdurdod
y Parc Cenedlaethol, gyda'r ugain
gwirfoddolwr.**

"Rydyn ni'n ffodus ein bod ni'n cael cymorth pob math o grwpiau sy'n ein helpu i warchod harddwch naturiol a bywyd gwyllt y Parc Cenedlaethol, ac rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda grwpiau fel myfyrwyr o Goleg yr Iwerydd a Chyfeillion y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol agos."

I gael rhagor o wybodaeth am wirfoddoli gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol anfonwch e-bost i:

recman@pembrokeshirecoast.org.uk.



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 5



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Medi - Rhagfyr



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
05/09/2015 a 19/09/2015 09:30 – 15:00	Morloi ar Ynys Sgomer	Dewch i adnabod ynys Sgomer yn yr hydref a dysgu mwy am y morlo llwyd. Mis Medi yw cyfnod y lloi bach, ac mae'r morloi'n defnyddio'r traethau unig a'r ogofâu ar yr ynys fel hafan ddiogel. RHAID ARCHEBU LLE	01834 845040
05/09/2015 10:00 – 12:00	Ymlusgo gyda'r Ymlusgiaid, Bosherston.	Ymunwch â pharcmon y Parc Cenedlaethol wrth iddo gyflwyno rhai o ymlusgiaid cudd Sir Benfro. Byddwch hefyd yn mynd am dro byr i safleoedd yr ymlusgiaid.	01834 845040
10/09/2015 a 24/09/2015 09:45 – 14:00	Morloi ym mis Medi, Penrhyn Tyddewi	Mae'n dymor y lloi bach ac mae'r morlo llwyd yn ymweld ag arfordir Penfro i roi genedigaeth. Ymunwch â pharcmon y Parc Cenedlaethol ar y daith gerdded hanner diwrnod ar Benrhyn Tyddewi i chwilio am y lloi bach. RHAID ARCHEBU LLE	01834 845040
10/09/2015 19:00 – 21:00	Ystlumod. Castell Caeriw	Noson i'r teulu pryd y daw hanes a byd natur ynghyd. Dewch i weld safleoedd hanesyddol arbennig Sir Benfro. Dilynwch olion traed i'r gorffennol, chwilio am ystlumod a gwrando am eu sŵn. RHAID ARCHEBU LLE.	01834 845040
12/09/2015 09:00 – 10:30	Noson Genedlaethol y Gwyfyn. Cilgerran	Dewch i ddysgu am fyd rhyfeddol y gwyfyn gyda Nia Stephens. Byddwn yn edrych ar wyfynod sydd wedi cael eu dal y noson cynt yng Nghorsydd Teifi. Pris: Oedolion £5, Plant £2.50 Rhaid archebu lle ar gyfer y digwyddiad hwn.	Ffoniwch 01239 621600 neu anfonwch e-bost i n.stephens@welshwildlife.org i archebu lle.
14/09/2015 19:30 – 21:15	Modrwy Adar. Canolfan Gymunedol Cashfield, Hwlfordd.	Sgwrs gan Wendy James. Cynhelir cyfarfodydd y tu mewn yng Nghanolfan Gymunedol Cashfield, Cashfield Way, Hwlfordd, SA61 2GF (oddi ar Crowhill). Mynediad £1 (yn cynnwys te/coffi a bisgedi).	John Steer— 01646 278966; biojohn@tiscali.co.uk
15/09/2015 19:30 – 21:15	Llygod y Dŵr ac Afancod. Canolfan Gymunedol Foundry House	Bydd Rob Parry, Swyddog Cadwraeth i WTSWW, yn rhoi sgwrs am Lygod y Dŵr ac yn dweud beth yw'r diweddaraf am brosiect yr Afancod. Croeso i bawb. £1.50 i aelodau a £2.50 i ymwelwyr – yn cynnwys Te neu Goffi a bisgedi.	Christine – chrissiejones58@gmail.com 01646 673912



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Medi - Rhagfyr



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
12/10/2015 19:30 – 21:15	Teithiau Naturiaethwr. Canolfan Gymunedol Cashfield, Hwlfordd,	Fy hanes yn chwilio am adar, morfilod a mamaliaid eraill. Sgwrs gan Elfyn Pugh. Mynediad £1 (yn cynnwys te/coffi a bisgedi).	John Steer— 01646 278966; biojohn@tiscali.co.uk
20/10/2015 19:30 – 21:15	Glöyn Byw y Brithribin Brown. Canolfan Gymunedol, Penfro.	Sgwrs gan David Redhead ynglŷn â'r glöyn byw hwn sydd i'w ganfod ar Warchodfa Natur West Williamston.	Christine – chrissiejones58@gmail.com 01646 673912
24-27 October 11:00 - 16:00	Chwilio am Ystlumod. Castell Caeriw	Mae Castell Caeriw yn enwog am ei ystlumod sy'n hoffi cuddio yng nghorneli tywyll ym muriau'r Castell. Dewch i weld a allwn weld pob un!! Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad arferol.	0845 345 7275
28/10/2015 13:00 – 15:30	Anturiaethau Coetir Gwyllt. Colby	Gwylwch fywyd gwyllt y coetir yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn y digwyddiadau teuluol hyn. Cyfuniad o weithgareddau awyr agored a chelf a chrefft.	0845 345 7275
29/10/2015 13:00 – 15:30	Anturiaethau Coetir Gwyllt. Colby	Gwylwch fywyd gwyllt y coetir yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn y digwyddiadau teuluol hyn. Cyfuniad o weithgareddau awyr agored a chelf a chrefft.	0845 345 7275
01/11/2015 11:00 - 16:00	Chwilio am Ystlumod. Castell Caeriw	Mae Castell Caeriw yn enwog am ei ystlumod sy'n hoffi cuddio yn y corneli tywyll ym muriau'r Castell. Dewch i weld a allwn weld pob un!! Wedi'i gynnwys yn y pris mynediad arferol.	0845 345 7275
17/11/2015 19:30 – 21:15	Dyfodol Fferm Gupton. Canolfan Gymunedol Foundry House, Penfro.	Bydd Chris Oliver – Parcmon yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer ystâd Stagbwl, yn rhoi sgwrs am y cynlluniau diweddaraf ar gyfer Fferm Gupton ger Freshwater West. Daeth ei thenantiaeth yn ôl i ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 2013.	Christine – chrissiejones58@gmail.com 01646 673912



Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tiffeddianwyr 	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro 
Undeb Amaethwyr Cymru 	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 
Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwylt 	Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu 
Cadwch Gymru'n Daclys 	Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru 
 MANOR HOUSE Wildlife Park	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar 
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru 	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 
Cyfoeth Naturiol Cymru 	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru 
Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro 	 Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Sir Penfro 	Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru 

